

Mantell Gwynedd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

4. Gwirfoddolwyr

4.13 Treuliau gwirfoddolwyr



Mae ad-dalu treuliau yn fater cyfle cyfartal. Bu i ymchwil a wnaed i bobl hŷn a gwirfoddolwyr rai blynyddoedd yn ôl ddarganfod mai'r rhwystr pennaf i gymryd rhan oedd diffyg taliadau ar gyfer mân dreuliau. Mae gwirfoddolwyr yn rhoi anrheg amser - anrheg sydd â gwerth ariannol sylweddol. Ni ddylid disgwyl iddynt roi arian hefyd; nid yw pawb mewn sefyllfa i allu gwneud hyn. Mae peidio â thalu treuliau i bob pwrpas yn allgáu'r rheini na all 'fforddio' gwirfoddoli i'ch mudiad.

Dylid cynnig treuliau i wirfoddolwyr, hyd yn oed os ydynt yn dewis peidio'u derbyn. Dylai'r dulliau ar gyfer hawlio treuliau fod yn ddiraffferth.

Treuliau, treth a budd-daliadau

Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) a'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cydnabod y canlynol fel treuliau dilys i wirfoddolwyr:

- teithio yn ôl a blaen o'r fan lle mae'r gweithgaredd gwirfoddol yn digwydd
- teithio yn ystod y gwirfoddoli
- prydau bwyd a geir yn ystod y gwirfoddoli (ystyrir bod hyd at £5 yn rhesymol)
- costau postio a ffonio
- gofal plant a dibynyddion eraill yn ystod oriau'r gwaith gwirfoddol
- cost dillad amddiffynnol neu arbennig

Dylai treuliau a delir i wirfoddolwyr fod y costau gwirioneddol yr aethpwyd iddynt, gyda derbynebion pan fo'n bosib. Dylai taliadau milltiredd fod ar gyfradd 'resymol' – er enghraifft, o fewn cyfyngiadau HMRC. Gosodir y rhain ar lefel sy'n ystyried costau dibrisio a chostau eraill megis tanwydd.

Dyma [gyfraddau milltiredd cymeradwy HMRC](#) (a ddiwygiwyd yn 2011 – 2012):

Ceir a faniau	45c y filltir am y 10,000 milltir gyntaf, 25c y filltir dros 10,000
Beiciau Modur	24c y filltir
Beiciau	20c y filltir

Caniateir 5c ychwanegol y filltir am bob teithiwr ychwanegol.

Fe'ch cynghorir i edrych ar wefan HMRC i gael y cyfraddau cymeradwy diweddaraf.

Dylid cyflwyno derbynebau, tocynnau trê neu fws fel tystiolaeth o wariant.

Mae rhai mudiadau yn diffinio cyfyngiad daearyddol/cyfyngiad ar bellter neu uchafswm i reoli faint o dreuliau a ad-delir.

Mae'n bosib i wirfoddolwyr gael eu talu ymlaen llaw ar gyfer gwariant a ragwelir cyn belled bod tystiolaeth briodol o'r gwariant yn dilyn.

Er enghraifft, os yw costau teithio'r gwirfoddolwr yn ôl a blaen i'r man gwaith yn £20 y mis mewn teithiau bws, mae'n bosib talu £20 i'r gwirfoddolwr ar ddechrau'r mis fel nad ydynt ar eu colled trwy orfod hawlio'r costau hynny'n ddiweddarach.

Nid yw hyn yn newid y ffaith mai dim ond costau dilys sydd wedi codi neu a fydd yn codi y gellir eu had-dalu heb effeithio ar sefyllfa'r gwirfoddolwr o ran budd-daliadau. Bydd angen yr un math o brawf, derbynebaw er enghraifft, i ddangos sut y gwariwyd yr arian.

Ni ddylid rhoi swm gosodedig i dalu treuliau gwirfoddolwyr e.e. lwfans cinio gan fod yn rhaid i dreuliau fod am wariant gwirioneddol.

Ni ddylech gael eich temtio i dalu mwy na'r hyn a wariwyd. Gallai hyn beryglu unrhyw fudd-daliadau y mae gwirfoddolwyr yn eu cael, ac o bosib achosi sancsiynau ar y budd-daliadau.

Gellir ystyried taliadau treuliau sy'n **fwy** na chostau gwirioneddol y gwirfoddolwyr fel taliad am y 'gwaith' a wnaethpwyd ganddynt. Gellid ystyried hyn (gan driwlynys neu gorff tebyg) fel perthynas dan gontract, gan roi hawliau cyflogaeth i'r gwirfoddolwyr - gan gynnwys y cyflog lleiafswm cenedlaethol.

Mae rhai mudiadau yn gwneud taliadau i wirfoddolwyr fel 'honoraria'. Tra bod HMRC yn derbyn taliadau unigol fel rhoddion di-dreth, gall taliadau o'r fath effeithio ar fudd-daliadau. Os disgwylir yr honorariwm mewn unrhyw ffordd, gall gael ei ystyried fel taliad ar gyfer gwasanaeth, ac felly'n effeithio ar statws cyfreithiol y gwirfoddolwyr.

Dylai honorariwm fod yn daliad unigol dilys fel 'diolch'. Os yw hyn yn ddisgwylidig, neu'n cael ei roi'n rheolaidd, bydd yn cael ei drin fel unrhyw incwm trethadwy arall.

Treuliau a Chymorth Rhodd

Os yw gwirfoddolwr yn dewis **peidio** â hawlio'r swm y mae ganddo'r hawl i'w gael ar gyfer ei dreuliau, ni ellir hawlio Cymorth Rhodd ar y swm hwn. Serch hynny, gall y gwirfoddolwr hawlio treuliau a dewis ad-dalu hyn fel Cymorth Rhodd.

Bydd [rheolau arferol Cymorth Rhodd](#) yn berthnasol a dylai yna fod tystiolaeth o drafodyn clir yn dangos rhodd ariannol gan y gwirfoddolwr i'r mudiad.

Polisi treuliau

Bydd polisi treuliau ysgrifenedig yn sicrhau bod eich gwirfoddolwyr yn gwybod beth yw eu hawliau parthed treuliau yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer eu hawlio.

Efallai y dylech roi terfynau synhwyrol ar rai treuliau, i atal camddealltwriaeth, neu embaras os rhoddir derbynebion am wariant i chi na allwch eu fforddio. Bydd eich terfynau'n dibynnu ar gostau lleol a'ch sefyllfa ariannol. Dylai fod yn ddigonol caniatáu i'ch gwirfoddolwyr gael tamaid o fwyd poeth a diod – mae hyd at £5 yn sicr yn rhesymol.

Mae hefyd yn rhesymol gofyn i wirfoddolwyr ddefnyddio'r math rhataf o drafnidiaeth gyhoeddus. Gall fod yn angenrheidiol i rai gwirfoddolwyr ddefnyddio tacsï - oherwydd anabledd, er enghraifft, neu i gael gweithiwr cymorth neu ofalwr gyda nhw. Mae'n werth ystyried anghenion unigol fel y rhain pan fyddwch yn amcangyfrif eich cyllideb ac yn ystyried eich polisi treuliau.

Yn gyffredinol fe'ch cynghorir i anelu at gydraddoldeb rhwng cyfraddau treuliau ar gyfer staff ac ar gyfer gwirfoddolwyr. Ni fyddai llawer o gyfiawnhad, er enghraifft, dros fabwysiadu cyfraddau milltiredd gwahanol ar gyfer staff a gwirfoddolwyr yn yr un mudiad.

Gallai polisi treuliau gynnwys:

- Pa gostau yn union y gellir neu na ellir eu hawlio, a pha gyfradd a delir
- Yr hyn a ellir neu na ellir ei hawlio ar ran cleient lle mae'r gwirfoddoli yn cynnwys cyfeillio, ymweld neu deithiau i weithgareddau cymdeithasol
- Y drefn ar gyfer hawlio, h.y. pa bryd, ar ba ffurflenni a pha gofnodion neu dderbynebau sydd angen eu cyflwyno i wneud cais
- Yr hyn sy'n digwydd ar ôl hawlio, a'r dull talu - arian parod, siec, yn syth i gyfrif banc.
- yr hyn a ddigwydd os gwneir hawliad twyllodrus.
- Sut y byddwch yn cefnogi gwirfoddolwyr sydd angen cymorth i lenwi'r ffurflenni.

Gwybodaeth bellach

Mae'r [Safon Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr](#) (Dangosydd 5.3) yn ei gwneud yn ofynnol y ceir polisi clir ar ad-dalu mân dreuliau gwirfoddolwyr, sydd wrth wraidd ethos y mudiad ac sy'n ystyried sefyllfa ariannol y mudiad.

Gweler hefyd: 4.1.1 [Gwirfoddolwyr a'r Gyfraith](#)
4.12 [Gwirfoddolwyr a Budd-daliadau Lles](#)

Adran Gwaith a Phensiynau

Ffôn: 020 7712 2171

www.gov.uk/volunteering/pay-and-expenses

[Adran Gwaith a Phensiynau/WCVA Canllaw i Wirfoddoli](#)

Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi

www.hmrc.gov.uk/charities/gift_aid/rules/vol-expenses.htm

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Mantell Gwynedd

23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AB

Elusen Gofrestredig: 1068851

Ffôn: 01286 672626

ymholiadau@mantellgwynedd.com

Ffacs: 01286 678430

www.mantellgwynedd.com



Ffôn: 0800 2888 329

www.wcva.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddarau: 10/01/2017